



PRIFYSGOL
ABERYSTWYTH
UNIVERSITY

1872



Yr Adran
Hanes a Hanes Cymru



Fframwaith
Rhagoriaeth
Addysgu

Yr Adran Hanes a Hanes Cymru

Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth.
Ceredigion
SY23 3FE

☎ +44 (0) 1970 622662

✉ history-enquiries@aber.ac.uk

🐦 @historyaber

Gwybodaeth bwysig

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir yn y llyfryn hwn am y rhaglenni gradd yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w argraffu (Hydref 2019), ond gellid ei newid. Cyn gwneud cais, rydym yn cynghori darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs gan gynnwys ein gofynion mynediad, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

Cynnwys

- | | |
|----|--------------------------------|
| 3 | Croeso |
| 4 | Proffil Myfyriwr |
| 6 | Ein cynlluniau gradd |
| 12 | Astudio drwy Gyfrwng y Gymraeg |
| 14 | Ymchwil yr adran |
| 16 | Cyfleoedd i astudio dramor |
| 18 | Cyfleoedd am brofiad gwaith |
| 20 | Sut i wneud cais |





Croeso



Helo a chroeso. Fi yw'r Athro Phillip Schofield, a fi yw Pennaeth yr Adran Hanes a Hanes Cymru yma ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae myfyrwyr yn dewis astudio Hanes yn Aberystwyth am sawl rheswm. Mae Aberystwyth yn dref lan-y-môr hardd sydd ag adnoddau ardderchog i haneswyr, fel Llyfrgell Genedlaethol Cymru, un o bump llyfrgell hawlfraint Prydain sydd ond ychydig funudau ar droed o'r adran. Mae ein haddysg a'n hymchwil yn cynnwys ystod eang o arbenigedd, gan gynnwys Hanes yr Oesoedd Canol a Hanes Modern a Hanes Modern Cynnar.

Mae ein darlithwyr hefyd yn cynnal ymchwil o safon byd-eang sy'n bwydo i bob un o'n rhaglenni gradd israddedig. Mae hyn yn golygu y gallwch ddysgu'n uniongyrchol gan arbenigwyr sy'n cyflawni'r ymchwil hanesyddol diweddaraf. Mae gennym nifer

o brosiectau ymchwil cyffrous ar waith yn yr adran ar hyn o bryd. Mae un o'r rhain, Prosiect Argraff, sef prosiect ar seliau canoloesol, yn cynnwys cydweithio rhwng ein hymchwilwyr a gwyddonwyr fforensig i ymchwilio i olion bysedd ar seliau, gan ddod â gwyddoniaeth a hanes ynghyd i ddeall y gorffennol yn well.

"Pam ddylwn i ddewis Aberystwyth?" Yr ateb symlaf yw ein bod yn meithrin eich angerdd a'ch brwdfrydedd am hanes, ac yn ei alluogi i dyfu fel ei fod yn eich cynnal chi'n ddeallusol ac ym myd gwaith. Bydd gradd Hanes o Brifysgol Aberystwyth yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i gyrraedd yr yrfa o'ch dewis. Gan ddechrau yn y flwyddyn gyntaf, rydym yn cynnig modiwlau, lleoliadau gwaith a phrofiadau a fydd yn helpu i'ch paratoi ar gyfer gwaith. Bydd astudio am radd mewn Hanes yn datblygu eich meddwl beirniadol a'ch sgiliau cyfathrebu, ymchwil, dehongli a dadansoddi, gan eich gwneud yn ymgeisydd cystadleuol ar gyfer ystod o yrfaoedd. Mae ein graddedigion wedi mynd i swyddi yn yr heddlu, y sector treftadaeth, newyddiaduraeth, darlledu, y gwasanaeth sifil, addysg a gwleidyddiaeth.

Yn ogystal, gall pob myfyrwr yn ein hadran astudio dramor neu wneud lleoliad gwaith yn ystod eu gradd. Os hoffech astudio

dramor fel rhan o'ch gradd, gallwch ddewis o blith unrhyw un o'n prifysgolion partner ar draws Ewrop ac yn rhyngwladol, yn Unol Daleithiau America, Awstralia, Canada a Hong Kong. Rydym hefyd yn cynnig cymorth i fyfyrwyr sy'n dymuno cyflawni lleoliad gwaith mewn ystod o sectorau.

Wrth galon ein cyrsiau gradd, rydym yn cynnig dewis o fodiwlau sy'n adlewyrchu ein harbenigedd ymchwil ar draws ystod eang o gyfnodau a themâu drwy gydol Hanes. Rydym yn cynnig dull ymarferol o astudio Hanes, ac mae ymgysylltu â ffynonellau craidd yn ganolog i'n haddysgu. Ochr yn ochr â darlithoedd, bydd eich modiwlau'n cynnig gweithdai a seminarau sy'n caniatáu i chi archwilio pwnc o sawl safbwynt ac arddull addysgu, ynghyd â chynnig cyfleoedd ar gyfer ymchwil annibynnol gydag arweiniad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein cyrsiau neu ein hadran, mae croeso i chi gysylltu â ni. Edrychaf ymlaen at gael cwrrd â chi yn Aberystwyth.

Yr Athro Phillip Schofield
Pennaeth yr Adran

Proffil Myfyriwr

Chris Dale

Myfyriwr Hanes yn ei Ail Flwyddyn

Helo, fy enw i yw Chris Dale ac rwy'n fyfyrwr Hanes yn fy ail flwyddyn yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth. I fi, mae astudio gyda'r Adran Hanes a Hanes Cymru wedi bod yn daith ddiddorol o ddarganfod, wedi'i harwain gan dîm o staff gwybodus a chefnogol iawn. Un o'r pethau gwych ynghylch cwrs Hanes Aberystwyth yw bod modd i chi ddewis o blith ystod eang o fodiwlau, sydd wedi'u gwasgaru dros y cyfnodau, gyda darlithwyr yn arbenigo yn Hanes yr Oesoedd Canol i'r cyfnod Modern Cynnar a'r cyfnod Modern. Mae gallu dewis o blith ystod mor amrywiol o arbenigedd yn golygu bod modd teilwra'r cwrs i'ch diddordebau chi, gan roi cynnig ar feysydd o hanes efallai nad ydych chi wedi rhoi cynnig arnyn nhw o'r blaen ar yr un pryd. Mae darlithwyr Aberystwyth yn hynod gefnogol, ac maen nhw wastad ar gael i gynorthwyo gyda gwaith cwrs neu baratoi ar gyfer arholiadau, felly dylech chi'n sicr wneud defnydd da o'u harbenigedd. Mae gan yr adran gydbwysedd da o staff a myfyrwyr, sy'n golygu y byddwch chi'n dod i adnabod eich darlithwyr yn gyflym. Mae hyn wedi gwneud y profiad o fod yn y brifysgol yn haws ymdrin ag e ac yn fwy personol. Yn gyffredinol, mae'r cwrs yn heriol

yn ddeallusol, ac mae wir yn caniatáu llawer o ryddid i fyfyrwyr astudio mewn ffordd sy'n gweddu i'w harddull a'u diddordebau nhw.

Rydyn ni fyfyrwyr Hanes yn treulio llawer o'n hamser yn llyfrgell Hugh Owen yn astudio. Mae hi yng nghanol y campws, wedi'i threfnu'n glir, ac mae ganddi staff anhygoel sy'n barod i helpu gydag unrhyw beth, o ganfod ffynonellau prin i drwsio cyfrifiadur. Rydyn ni'n lwcus iawn o gael mynediad at Lyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd, un o'r pum llyfrgell hawlfraint ym Mhrydain ac Iwerddon, sydd wedi'i lleoli wrth ymyl y campws. Yn y Llyfrgell Genedlaethol, mae modd i fyfyrwyr gael mynediad at gopi o unrhyw beth sydd erioed wedi'i gyhoeddi ym Mhrydain, sy'n gymorth mawr wrth geisio cefnogi ffynonellau craidd ac eilradd... ac mae am ddim!

Gan adael y gorau tan y diwedd, rydw i nawr yn cyrraedd bywyd cymdeithasol myfyriwr hanes yn Aberystwyth. Er y byddwch chi'n gweithio'n galed, mae hefyd yn bwysig mwynhau'r bywyd cymdeithasol yma. Gallai hynny gynnwys dod yn rhan o'r llu o gymdeithasau a chwaraeon, neu fwynhau

bywyd bywiog tref Aberystwyth - y ddau gobeithio! Mae'r Gymdeithas Hanes yn rhan bwysig o'r adran Hanes, ac mae'n dod â myfyrwyr o bob blwyddyn academiaidd at ei gilydd. Mae'r Gymdeithas yn mynd ar sawl taith drwy gydol y flwyddyn i amgueddfeydd a chestyll, ac mae'n trefnu taith haf fawr dramor hefyd. Maen nhw'n cynnal nosweithiau cymdeithasu â themâu bob wythnos, sy'n llawer o hwyl, gyda digonedd o chwerthin a chymdeithasu. Mae llawer o gymdeithasau eraill i ymuno â nhw hefyd, o wahanol chwaraeon, celfyddydau, gwleidyddiaeth, gemau a llawer mwy. Yn ystod y dydd, gallwch godi'ch traed ac ymlacio yn Undeb y Myfyrwyr, a blasu rhywfaint o'r bwyd yn Nosh-Da - sy'n wych - yn enwedig byrgyr Posh-Nosh, mae'n rhaid i fi ddweud!

Yn gyffredinol, mae profiad myfyriwr Hanes yn Aberystwyth yn un gwych, a bydden i'n eich annog chi i wneud defnydd o'r adran a'i hadnoddau gymaint ag y gallwch chi, a dod yn rhan o ochr gymdeithasol pethau drwy gymdeithasau fel y Gymdeithas Hanes.



Ein Cynlluniau Gradd

Mae'r Adran yn cynnig rhaglenni gradd sy'n cynnwys ystod o themâu a chyfnodau hanesyddol. Mae'r rhain yn cynnwys Hanes (3 blynedd, neu 4 blynedd gyda blwyddyn integredig yn astudio dramor), Hanes Cymru, Hanes yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar, Hanes Modern a Chyfoes, a Gwleidyddiaeth a Hanes Modern (gyda'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol). Yn ogystal, mae'r Adran hefyd yn cynnig Gradd Gyfun a chyfuniadau Prif bwnc/Is-bwnc gyda phynciau eraill mewn Gwyddorau Bywyd (Daearyddiaeth), Celfyddydau, a Gwyddorau Cymdeithasol.

Hanes/History

BA (Anrh)





Bydd gradd mewn Hanes yn caniatáu ichi roi'r gorffennol yn ei gyd-destun, magu dealltwriaeth ddyfnach o gymdeithas a'r byd, a datblygu sgiliau dadansoddol fel dehongli, dadansoddi a chyfathrebu sydd mor allweddol yn y gweithle. Mae diddordebau ein darlithwyr yn amrywio o'r cynfyd i'r byd modern, felly gallwn gynnig modiwlau hanes diwylliannol, economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol amrywiol o bob cyfnod a chyfandir i chi.



Wrth ichi brofi amrywiaeth eang yr Adran o fodiwlau, byddwch yn ymgyswrtu â damcaniaethau hanesyddol fydd yn peri ichi feddwl, y dulliau ymchwilio diweddaraf, a ffynonellau hanesyddol difyr sy'n amrywio o lawysgrifau canoloesol a baledi Modern Cynnar i gyfryngau torfol Modern, straeon hanes llafar, a hanes a diwylliant materol. Bydd y modiwlau hyn yn eich paratoi i gynnal eich ymchwil eich hun.



Mae cyfleoedd yn Aberystwyth ar gyfer myfyrwyr Hanes yn cynnwys:

- astudio yn yr Adran Hanes hynaf yng Nghymru, gyda dros gan mlynedd o ysgolheictod ac addysgu o safon fyd-eang;
- boddhad myfyrwyr â'r Adran Hanes a Hanes Cymru yn 91% (ACF 2018);
- dewis hyblyg o fodiwlau Hanes, a ddysgir gan arbenigwyr yn y maes;
- dulliau dysgu arloesol, â'r pwyslais ar ffynonellau gwreiddiol;
- mynediad llawn fel myfyrwr i lyfrau, llawysgrifau ac archifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol, sy'n un o ddim ond pum llyfrgell hawlfraint yn y DU, yn un o gasgliadau archif hanesyddol pwysicaf y DU, a gallwch gerdded yno o'r Adran mewn pum munud. Hi hefyd yw cartref archif genedlaethol Cymru;
- cyfleoedd i bob myfyriwr astudio dramor yn Ewrop, UDA, Canada, Awstralia a thu hwnt;
- gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys teithiau maes a chynadleddau dan arweiniad myfyrwyr;
- lleoliadau gwaith ac interniaethau perthnasol.

Ffeithiau Allweddol

	Math o radd: BA.
	Cod UCAS: V101 (History V100, V102 gan gynnwys blwyddyn integredig dramor).
	Hyd: 3 blynedd (mae V102 yn 4 blynedd).
	Teithiau/gwaith maes: Oes.

	Yn amodol ar gael ei chymeradwyo, bydd y radd yma hefyd ar gael fel cwrs pedair blynedd gyda blwyddyn sylfaen. Bydd blwyddyn gyntaf y cwrs yma'n eich codi i lefel mynediad i'r brifysgol, gan eich paratoi ar gyfer y tair blynedd olaf.
	Cyfleoedd i astudio dramor: Oes.

	Gallwch astudio'r pwnc yma (fel anrhydedd cyfun) gyda: Drama ac Astudiaethau Theatr, Addysg, Llenyddiaeth Saesneg, Ffrangeg, Daearyddiaeth, Almaeneg, Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Mathemateg, Sbaeneg, Cymraeg a Hanes Cymru.
	Ysgoloriaethau cymwys (*V101 yn unig): Ysgoloriaeth William Salesbury, Ysgoloriaeth Cyngor Gwynedd a'r Prif Ysgoloriaeth (CCC).

 Cwrs cyfrwng Cymraeg
*V100 yn unig

Modiwlau

Mae'r cwrs wedi'i strwythuro o amgylch set o fodiwlau craidd allweddol a fydd yn datblygu eich sgiliau a'ch dealltwriaeth hanesyddol trwy gydol eich gradd.

Y flwyddyn gyntaf:

- Cyflwyno Hanes/Introduction to History.
- Hanes am Oes/History for Life.

Yr ail flwyddyn:

- Lluio Hanes/Making History.

Y drydedd flwyddyn:

- Traethawd Estynedig/Dissertation.

Mae'r modiwlau presennol yn cynnwys: Concro'r Byd: Twf a Chwymp Ymerodraethau Prydain a Ffrainc, Gwrandao ar Hanes: Y mudiad Hawliau Sifil yn America, Milwyr, Myfyrwyr a Masnachwyr: Teithio a Symudedd yn Ewrop Ganoloesol, Diwylliant, Cymdeithas a'r Fictoriaid, East and West in the Age of Crusades; The Tudors a European Dynasty; Science, Religion, and Magic; Asian Migration in the Modern World and the Third Reich. Am fwy o fanylion am ein ystod llawn o fodiwlau, ewch i'n gwefan, neu cysylltwch â ni.

Hanes a Hanes Cymru

/History and Welsh History



BA (Anrh)

Mae Aberystwyth yn ganolfan bwysig i ysgolheictod Gymreig a Cheltaidd ac mae'r Adran yn chwarae rhan flaenllaw wrth ddatblygu astudiaethau hanesyddol yn y maes hwn. Mae'r radd anrhydedd hon yn astudio elfennau o hanes Cymru wrth ganiatáu ichi hefyd fagu dealltwriaeth ehangach o hanes.

Mae'r cwrs yn caniatlâu i chi astudio amrywiaeth o fodiwlau Hanes Cymru, o'r cyfnod canoloesol i'r oes fodern. Mae hefyd yn caniatáu ichi ddewis o'r amrywiaeth eang o fodiwlau sydd ar gael ynghylch rhanbarthau a chyfnodau eraill. Mae myfyrwyr sy'n dilyn y cwrs gradd hwn hefyd yn elwa o'r cyfle i astudio mewn canolfan arbenigol ar gyfer hanes Cymru, ac i ddatblygu eu diddordebau mewn hanes yn fwy eang.

Mae cyfleoedd arbenigol yn Aberystwyth ar gyfer Hanes a Hanes Cymru yn cynnwys:

- cael astudio yn yr Adran Hanes hynaf yng Nghymru sy'n un o'r mwyaf blaenllaw ym Mhrydain, lle dysgwyd Hanes Cymru ers y 1880au;
- 91% am fodlonrwydd cyffredinol myfyrwyr yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru (ACF 2018);
- dewis eang o fodiwlau, sy'n cael eu dysgu gan arbenigwyr yn y maes, â'r pwyslais ar ffynonellau gwreiddiol;
- cael defnyddio llyfrgell y Brifysgol, lle mae casgliad o'r radd flaenaf o lenyddiaeth Geltaidd a gweithiau hanesyddol, yn ogystal â defnyddio Llyfrgell Genedlaethol Cymru, un o ddim ond pum llyfrgell hawlfraint yn y DU;
- dewis da o gyfleoedd i astudio dramor yn Ewrop a thu hwnt;
- cyfleoedd i fynd ar leoliadau gwaith ac interniaethau sy'n ymwneud â hanes.

Modiwlau

Mae'r cwrs wedi'i strwythuro o amgylch set o fodiwlau craidd allweddol a fydd yn datblygu eich sgiliau a'ch dealltwriaeth hanesyddol trwy gydol eich gradd.

Y flwyddyn gyntaf:

- Cyflwyno Hanes/Introduction to History.
- Hanes am Oes/History for Life.

Yr ail flwyddyn:

- Llunio Hanes/Making History.

Y drydedd flwyddyn:

- Traethawd Estynedig/Dissertation.

Yn ystod cwrs eich gradd bydd gennych ddewis o fodiwlau dewisol sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Mae modiwlau presennol Hanes Cymru yn cynnwys: Conquest, Union and Identity in Wales 1250-1800; Y Rhyfel Mawr trwy Lygaid y Cymry; Society, People and Politics in Wales: 1800-1999; a Trosedd, Terfysg a Moesoldeb yng Nghymru 1750-1850/Crime, Riot and Morality in Wales 1750-1850.

Mae modiwlau eraill hanes yn cynnwys: East and West in the Age of Crusades; The Tudors a European Dynasty; Science, Religion, and Magic; Asian Migration in the Modern World and the Third Reich. Am fwy o fanylion, ewch i'n gwefan, neu cysylltwch â ni.

Ffeithiau Allweddol


Math o radd: BA.
Cod UCAS: VV21 (History and Welsh History VVC2).
Hyd: 3 blynedd.

Cyfleoedd i astudio dramor: Oes.
Teithiau/gwaith maes: Oes.

Ysgoloriaethau cymwys (*VV21 yn unig): Ysgoloriaeth William Salesbury, Ysgoloriaeth Cyngor Gwynedd a'r Prif Ysgoloriaeth (CCC).
--

Hanes Modern a Gwleidyddiaeth

/Politics and Modern History



BA (Anrh)

Mae ein gradd mewn Gwleidyddiaeth a Hanes Modern yn canolbwyntio ar astudio syniadau a sefydliadau gwleidyddol diweddar mewn cyd-destun hanesyddol, gan ganiatáu ichi ddeall sut mae syniadau a sefydliadau o'r fath wedi datblygu dros amser. Yn Aberystwyth, mae'r radd yn cyfuno arbenigedd haneswyr a gwyddonwyr gwleidyddol o'r Adran Hanes a Hanes Cymru a'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, mewn cwrs cyfannol sy'n cynnig cryn hyblygrwydd i chi wrth ddewis modiwlau.

Byddwch yn datblygu sgiliau mewn dulliau hanesyddol, sy'n edrych ar y ffordd mae ystyr, dulliau ac ysgrifennu am hanes wedi newid dros amser a thrwy ganolbwyntio ar ffynonellau gwreiddiol a'u dadansoddi. Yn eich blwyddyn olaf byddwch hefyd yn ysgrifennu traethawd estynedig ar bwnc gwleidyddol neu hanesyddol gan ddefnyddio'r sgiliau ymchwil allweddol y byddwch wedi'u datblygu yn ystod eich gradd.

Mae cyfleoedd arbenigol yn Aberystwyth ar gyfer Hanes Modern a Gwleidyddiaeth yn cynnwys:

- astudio yn yr Adran Hanes hynaf yng Nghymru a'r adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol hynaf yn y byd, a'r ddwy ohonynt â thros gan mlynedd o ysgolheictod ac addysgu o safon fyd-eang;
- dewis eang o fodiwlau, sy'n cael eu dysgu gan arbenigwyr yn y maes;
- defnyddio casgliad digymar llyfrgell y Brifysgol o adnoddau hanes modern ar-lein, a mynediad llawn fel myfyrwyr i gasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn un o ddim ond pum llyfrgell hawlfraint yn y DU a gallwch gerdded yno o'r Adran mewn pum munud;
- cyfleoedd i bob myfyriwr astudio dramor yn Ewrop a thu hwnt;
- gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys teithiau maes, cynhadledd Myfyrwyr Hanes Modern Aberystwyth, a'r gêm argyfwng Gwleidyddiaeth Ryngwladol;
- lleoliadau gwaith ac interniaethau sy'n ymwneud â hanes.

Modiwlau

Mae'r cwrs wedi'i strwythuro o amgylch set o fodiwlau craidd allweddol a fydd yn datblygu eich sgiliau a'ch dealltwriaeth hanesyddol trwy gydol eich gradd.

Y flwyddyn gyntaf:

- Cyflwyno Hanes/Introduction to History.
- Hanes am Oes/History for Life.

Yr ail flwyddyn:

- Llunio Hanes/Making History.

Y drydedd flwyddyn:

- Traethawd Estynedig/Dissertation.

Yn ystod cwrs eich gradd bydd gennych ddewis o fodiwlau dewisol sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Mae modiwlau presennol yn cynnwys: Amlddiwylliannedd mewn Polisi ac Ymarfer Rhyfel Diarbed, Heddwch Diarbed, Concro'r Byd: Twf a Chwmp Ymerodraethau Prydain a Ffrainc, Gwrando ar Hanes: Y mudiad, Hawliau Sifil yn America, Russia in World Politics; the Third Reich; America: from Colony to Superpower; and Britain and the Islamic World. Am fwy o fanylion am yr ystod llawn o fodiwlau yn y ddwy aran, ewch i'n gwefan, neu cysylltwch â ni.

Ffeithiau Allweddol

Math o radd: BA.
Cod UCAS: VL1F (Politics and Modern History V135).

Hyd: 3 blynedd.
Cyfleoedd i astudio dramor: Oes.

Teithiau/gwaith maes: Oes.
Ysgoloriaethau cymwys: Prif Ysgoloriaeth (CCC).

Medieval and Early Modern History

BA (Anrh)

Mae'r cynllun gradd Hanes yr Oesoedd Canol a Hanes Modern Cynnar yn caniatáu ichi ddilyn a datblygu eich diddordebau mewn hanes, ym Mhrydain a thu hwnt, yn y cyfnod rhwng y Llychlynwyr a Napoleon Bonaparte. Mae rhyfel, crefydd, goresgyniad, grym a rhywedd ymysg y themâu lu sy'n cael eu trafod yn y cynllun gradd hwn.

Byddwch yn gweithio â staff sy'n arbenigwyr rhyngwladol yn eu meysydd. Cewch gyfle i weithio mewn grwpiau bychain gyda dogfennau gwreiddiol o'r oesoedd canol a'r cyfnod modern cynnar, mewn amgylchedd ymchwil o'r radd flaenaf sydd hefyd yn ymfalchïo yn ei ymrwymiad i ddsygu. Byddwch hefyd yn ysgrifennu traethawd estynedig yn y flwyddyn olaf yn seiliedig ar themâu a ffynonellau gwreiddiol y byddwch wedi ymwneud â hwy trwy gydol eich gradd.

Mae cyfleoedd arbenigol yn Aberystwyth ar gyfer Hanes yr Oesoedd Canol a Hanes Modern Cynnar yn cynnwys:

- astudio yn yr Adran Hanes hynaf yng Nghymru, gyda dros gan mlynedd o ysgolheictod ac addysgu o safon fyd-eang ym maes hanes yr oesoedd canol a hanes modern cynnar;
- dewis eang o fodiwlau, sy'n cael eu dysgu gan arbenigwyr yn y maes, â'r pwyslais ar ffynonellau gwreiddiol a'u dehongli;
- defnyddio casgliad digymar llyfrgell y Brifysgol o adnoddau hanes modern cynnar ar-lein, a mynediad llawn fel myfyrwr i gasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru o lawysgrifau canoloesol a modern cynnar. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol, sy'n un o ddim ond pum llyfrgell hawlfraint yn y DU, yn un o gasgliadau archif hanesyddol pwysicaf y DU, a gallwch gerdded yno o'r Adran mewn pum munud;
- cyfleoedd i bob myfyriwr astudio dramor yn Ewrop a thu hwnt;
- gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys teithau maes a chynhadledd Myfyrwyr Hanes y Canol Oesoedd Aberystwyth;
- lleoliadau gwaith ac interniaethau sy'n ymwneud â hanes.



ar gael
drwy'r
Gymraeg

Modiwlau

Mae'r cwrs wedi'i strwythuro o amgylch set o fodiwlau craidd allweddol a fydd yn datblygu eich sgiliau a'ch dealltwriaeth hanesyddol trwy gydol eich gradd.

Y flwyddyn gyntaf:

- Cyflwyno Hanes/Introduction to History.
- Hanes am Oes/History for Life.

Yr ail flwyddyn:

- Llunio Hanes/Making History.

Y drydedd flwyddyn:

- Traethawd Estynedig/Dissertation.

Yn ystod cwrs eich gradd bydd gennych ddewis o fodiwlau dewisol sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Mae modiwlau presennol yn cynnwys: Milwyr, Myfyrwyr a Masnachwyr: Teithio a Symudedd yn Ewrop Ganoloesol, Age of Magna Carta: England and its Neighbours; The Reign of Edward II; The Ottoman Empire and Early Modern Travel Writing and The Atlantic World. Am fwy o fanylion, ewch i'n gwefan, neu cysylltwch â ni.

Ffeithiau Allweddol

Math o radd: BA.
Cod UCAS: V190.
Hyd: 3 blynedd.

Cyfleoedd i astudio dramor: Oes.
Teithiau/gwaith maes: Oes.

Ysgoloriaethau cymwys: Prif Ysgoloriaeth (CCC).
--

Modern and Contemporary History

BA (Anrh)

Cynlluniwyd y radd hon i daflu goleuni ar y gorffennol agos a sut mae wedi llunio'r byd heddiw. Ar y cynllun gradd hwn byddwch yn profi ffyrdd newydd a chyffrous o ymwneud ag ymchwil hanesyddol fodern, gan archwilio ffynonellau newydd, herio gwirioneddau sy'n cael eu derbyn a chynnig deongliadau newydd.

Yn Aberystwyth, byddwch yn astudio modiwlau ar hanes Prydain, Ewrop, gwledydd America, ac Asia o'r 1750au hyd at y presennol. Mae'n archwilio cyfnod a nodweddir gan gyfranogiad torfol, boed mewn gwleidyddiaeth, rhyfel neu ddiwylliant. Mae'n amlygu gwrthddywediad moderniaeth, o dwf democratiaeth ac ymddangosiad gwladwriaethau lles i ryfeloedd byd a hil-laddiad, ac o addewid rhesymeg, gwyddoniaeth a thechnoleg i realiti globaleiddio a gorlwytho cyfryngol. Yn eich traethawd estynedig yn eich blwyddyn olaf cewch gyfle i fynd ar drywydd rhai o'r cwestiynau a'r ffynonellau hanesyddol yr ydych wedi ymwneud â hwy yn ystod eich astudiaethau, a hynny ar eich liwt eich hun.

Mae cyfleoedd arbenigol yn Aberystwyth ar gyfer Hanes Modern a Chyfoes yn cynnwys:


- astudio yn yr Adran Hanes hynaf yng Nghymru, gyda dros gan mlynedd o ysgolheictod ac addysgu o safon fyd-eang;
- dysgu am Hanes mewn adran a gafodd 91% am fodlonrwydd cyffredinol myfyrwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfrwyr 2018;
- dewis eang o fodiwlau, sy'n cael eu dysgu gan arbenigwyr yn y maes, â'r pwyslais ar ffynonellau gwreiddiol modern a chyfoes a'u dehongli;
- defnyddio casgliad digymar llyfrgell y Brifysgol o adnoddau hanes modern ar-lein, a mynediad llawn fel myfyrwr i gasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol, sy'n un o ddim ond pum llyfrgell hawlfraint yn y DU, yn un o gasgliadau archif hanesyddol pwysicaf y DU, a gallwch gerdded yno o'r Adran mewn pum munud;
- cyfleoedd i bob myfyriwr astudio dramor yn Ewrop a thu hwnt;
- gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys teithau maes a chynhadledd Myfyrwyr Hanes Modern Aberystwyth;
- lleoliadau gwaith ac interniaethau sy'n ymwneud â hanes.

Ffeithiau Allweddol

Math o radd: BA.
Cod UCAS: V191.

Hyd: 3 blynedd.
Cyfleoedd i astudio dramor: Oes.

Teithiau/gwaith maes: Oes.
Ysgoloriaethau cymwys: Prif Ysgoloriaeth (CCC).



ar gael
drwy'r
Gymraeg

Modiwlau

Mae'r cwrs wedi'i strwythuro o amgylch set o fodiwlau craidd allweddol a fydd yn datblygu eich sgiliau a'ch dealltwriaeth hanesyddol trwy gydol eich gradd.

Y flwyddyn gyntaf:

- Cyflwyno Hanes/Introduction to History.
- Hanes am Oes/History for Life..

Yr ail flwyddyn:

- Llunio Hanes/Making History.

Y drydedd flwyddyn:

- Traethawd Estynedig/Dissertation.

Hefyd, bydd gennych ddewis o fodiwlau dewisol sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r modiwlau hanes modern a chyfoes presennol yn cynnwys: Oes y Fictoriaid, Y Rhyfel Mawr trwy Lygaid y Cymry, the Victorians, America, Britain and the Great Depression, Modernity and the Making of Asia, Media and Society in Twentieth Century Britain; a Britain at War 1939-1945. Am fwy o fanylion am ein ystod llawn o fodiwlau, ewch i'n gwefan, neu cysylltwch â ni.

Yn ystod cwrs eich gradd bydd gennych ddewis o fodiwlau dewisol sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Astudio drwy Gyfrwng y Gymraeg

Mae'r Adran yn un o brif ddarparwyr dysgu cyfrwng Cymraeg y Brifysgol.

Mae gennym chwe aelod o staff sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gallu cynnig ystod diddorol o fodiwlau drwy'r Gymraeg sy'n ymwneud â Chymru, Prydain, Ewrop ac America o'r cyfnod canoloesol hyd at heddiw. Gellir bod yn hyblyg iawn wrth ddewis iaith y dysgu a chewch ddewis gradd cyfrwng Cymraeg yn benodol neu ddilyn ambell fodiwl yn unig drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd pob myfyriwr cyfrwng Cymraeg yn cael tiwtor personol sy'n medru'r Gymraeg i'w cynghori ynghylch hyn a materion eraill.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni.



Ymchwil yr Adran

Mae ymchwil yr adran yn archwilio hanes pobl o'r Oesoedd Canol hyd heddiw. Mae'n cynnwys gwaith ar bron i bob agwedd ar hanes, ond yn canolbwyntio'n benodol ar gwestiynau ynghylch y cof, diwylliant materol a gwleidyddol, sefydliadau a mudiadau cymdeithasol, gwyddoniaeth a meddygaeth, a hanes cymharol o gyfnewid a mudo ar draws Ewrop a'r byd ehangach. Mae'n cynnwys ymchwil sy'n arwain y byd ar seliau canoloesol, natur ysgrifennu hanesyddol dros amser, datblygiad gwyddoniaeth fodern, a phrofiad hanesyddol gwahanol o argyfyngau megis newyn. Mae llawer o'r ymchwil hwnnw hefyd yn bwydo i'r addysg a ddarperir gan yr Adran.



Cyfleoedd i astudio dramor



Mae'r Adran yn eich annog i ystyried astudio dramor fel rhan o'ch gradd unai am semester ym Mlwyddyn 2 fel rhan o'n gradd 3 mlynedd, neu am flwyddyn academaidd llawn fel rhan o'n gradd Hanes gyda Blwyddyn Integredig yn Astudio Dramor.

Yn Aberystwyth, mae yna dwy brif ffordd gall myfyrwyr astudio dramor. Drwy'r cynllun Erasmus+ cewch astudio yn un o brifysgolion Ewrop, sy'n bartneriaid i ni. Bydd myfyrwyr sy'n mynd ar leoliad Erasmus+ yn gymwys am grant. Os byddwch am astudio mewn gwlad tu allan i Ewrop, gallwch gymryd rhan yn Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol y Brifysgol.

Erasmus+

Y Weriniaeth Tsiec

- > Prifysgol Charles, Prague

Ffrainc

- > Prifysgol Bordeaux Montaigne, Pessac
- > Prifysgol Paris-Sorbonne
- > Prifysgol La Rochelle

Yr Almaen

- > Prifysgol Ewropeaidd Viadrina, Frankfurt
- > Prifysgol Goettingen

Iwerddon

- > Prifysgol Cenedlaethol Iwerddon, Galway
- > Mary Immaculate College, Limerick
- > Prifysgol Maynooth
- > Coleg Prifysgol Dulyn

Yr Iseldiroedd

- > Prifysgol Utrecht

Norwy

- > Prifysgol Tromso

Gwlad Pwyl

- > Prifysgol Wrocław

Portiwgal

- > Prifysgol Coimbra

Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol

Canada:

- > Prifysgol Dalhousie, Halifax, Nova Scotia
- > Prifysgol McGill, Montreal
- > Prifysgol Thompson Rivers
- > Prifysgol Guelph, Ontario
- > Prifysgol Ottawa
- > Prifysgol Victoria

Awstralia

- > Prifysgol Deakin
- > Prifysgol Griffith
- > Prifysgol Murdoch, Perth
- > Prifysgol De Cymru Newydd, Sydney
- > Prifysgol Newcastle

Azerbaijan

- > Prifysgol ADA, Baku

Hong Kong

- > Prifysgol y Bedyddwyr, Hong Kong

Japan

- > Prifysgol Rikkyo, Tokyo

Gwlad Thai

- > Prifysgol Thammasat

UDA:

- > Y Brifysgol Americanaidd
- > Prifysgol Daleithiol Boise
- > Prifysgol Daleithiol Bowling Green
- > Prifysgol Carroll
- > Prifysgol Purdue
- > Prifysgol Queen's Charlotte
- > Prifysgol Alabama
- > Prifysgol Georgia
- > Prifysgol Louisville, Kentucky
- > Prifysgol Montana
- > Coleg Utica
- > Prifysgol Daleithiol Washington
- > Westminster College, Missouri
- > Prifysgol Willamett

Cyfleoedd profiad gwaith

Gall Hanes fel pwnc arwain at amrywiaeth eang o yrfaeodd. Mae graddedigion o'r Adran Hanes a Hanes Cymru er enghraifft wedi cael gwaith fel athrawon, cyfreithwyr, archifwyr, cyhoeddwyr, gwleidyddion a gweision sifil, yn ogystal ag yn y cyfryngau, busnesau mawr, y lluoedd arfog, ac fel entrepreneuriaid.

Y rheswm am hyn yw fod Hanes yn bwnc sy'n eich arfogi â sgiliau i ddarganfod, dadansoddi a dehongli gwybodaeth, ac i gyflwyno eich darganfyddiadau mewn modd clir ac argyhoeddiadol - yn ogystal â darparu cipolwg ar ddynoliaeth tros yr oesoedd.

Mae'r Adran Hanes a Hanes Cymru yn falch o yrfaeodd eu graddedigion ac yn cynnig arweiniad a chefnogaeth am fywyd wedi'r brifysgol, wedi ei arwain gan gyd-drefnydd cyflogadwyedd academaidd. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth gan eich tiwtor personol; sgysiau, gweithdai a sesiynau un i un a ddarperir gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd; mynediad i fentora gan gyn-fyfyrwyr; a lleoliadau gwaith myfyrwyr mewn sefydliadau treftadaeth.

Mae ein graddedigion wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau proffesiwn mewn llawer o feysydd gwahanol:

- Addysg;
- Y Gyfraith;
- Archifwyr;
- Cyhoeddwyr;
- Gwleidyddion;
- Gweision Sifil;
- Y Cyfryngau;
- Y Lluoedd Arfog;
- Entrepreneuriaid.



Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 15 Ionawr. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

GAIR I GALL: Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

GAIR I GALL: Defnyddiwch UCAS Track i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

3 Bydd y cynnig i'w weld ar UCAS Track

4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/ wrth gefn gallwch wneud cais am lety (1 Ebrill ymlaen).

6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd UCAS Track yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Gwnewch yn sicr nad ydych ar wyliau ar ddiwrnod y canlyniadau. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio

7 Dechreuwch bacio!





